Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Aelod Cabinet (Dirprwy Arweinydd/Portffolio)

## Disgrifiad Swydd

1. **Atebolrwydd**
   - I'r Arweinydd
   - I'r Cabinet (drwy gyfrifoldeb ar y cyd)
   - I'r Cyngor Llawn

2. **Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**
   - **Cynnig arweinyddiaeth portffolio**
     - Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio
     - Ennill parch swyddogion y portffolio; cynnig cymorth i swyddogion wrth weithredu rhaglenni'r portffolio
     - Cysylltu â'r pwyllgor craffu priodol
     - Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad y portffolio
     - Bod â throsolwg o reolaeth perfformiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y portffolio
     - Gwneud penderfyniadau gweithredol yn y Portffolio
     - Sicrhau y caiff y portffolio ei gyflawni o fewn cyfyngiadau cyllidebol yr Awdurdod

   - **Cyfrannu at osod agenda strategol a rhaglen waith y portffolio**
     - Gweithio gyda swyddogion i greu dogfennau polisi strategol a statudol. Sicrhau bod dymuniadau gwleidyddol y mwyafrif yn cael ei drafod gyda'r Cabinet ac mewn cyfarfodydd Cabinet.
     - Rhoi cyngor ar greu a chynnal rhaglen waith strategol, yn wleidyddol ac yn statudol. Cynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid yn ôl yr angen. Sicrhau bod blaenraglen waith y portffolio yn gyfredol ac yn gywir.

   - **Cynnig sylwadau ar y portffolio**
     - Bod yn ffigwr cryf, cymwys a darbwyllol i gynrychioli'r portffolio.
     - Arwain mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid

   - **Adrodd a chyfrif**
     - Adrodd fel sy'n briodol i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Cabinet, cyrff rheoleiddio a'r wasg
     - Bod yn brif siaradwr gwleidyddol ar gyfer y portffolio
     - Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion y portffolio

- **Cymryd rhan actif mewn cyfarfodydd cabinet ac wrth wneud penderfyniadau**
  - Dangos diddordeb mewn a chefnogi portffolios pobl eraill
  - Cydnabod a chyfrannu at faterion sy’n torri ar draws bortffolios neu sy’n faterion cyfrifoldeb ar y cyd

- **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**
  - Arwain ar bartneriaethau strategol lleol ac arwain partneriaid lleol i geisio cyflawni nodau a blaenoriaethau cyffredin
  - Negodi a gweithredu fel brocer pan fydd blaenoriaethau gwahanol ac anghytundebau
  - Arwain y gymuned leol drwy arddangos gweledigaeth a rhagwelediad

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasau**
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da’r Cyngor a’i waith
  - Cynnig arweinyddiaeth cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth actif
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
  - Cefnogi, a glynu at, berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda chyflogeion y Cyngor
  - Glynu at God Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a’r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

- **Ymgymryd â rôl Dirprwy Arweinydd**
  - Cyflawni dyletswyddau’r Arweinydd yn ei h/absenoldeb
  - Cynorthwyo’r Arweinydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen

3. **Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Adeiladu consensws